**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-23-02(p.7)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Mesur Iechyd (Cymru) - Darpariaethau Atodlen 7A** |

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Tachwedd gofynnwyd i mi roi cyngor ar y cwestiwn a fyddai'r Atodlen 7A newydd arfaethedig i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 "would allow the Assembly to issue directions that any major reconfigurement must be subject to public consultation conducted by the respective district Community Health Council".

**1. Cynghorau Iechyd Cymunedol (CICau) yn ymgynghori â'r cyhoedd**

Mae paragraff 2 o'r Atodlen 7A arfaethedig, fel y'i nodir yn Atodlen 1 i'r Mesur, yn nodi pa reoliadau, mewn perthynas â'r CICau, y gall y Cynulliad ddarparu ar eu cyfer drwy gyfrwng rheoliadau. Dyletswydd unrhyw CIC yw cyflawni unrhyw swyddogaethau a roddir iddo gan reoliadau a wneir o dan y paragraff hwnnw. Mae swyddogaethau o'r fath yn cynnwys ystyriaeth a roddir gan y CICau i faterion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithredu o fewn eu hardaloedd *(paragraff2 (g)),* paratoi a chyhoeddi adroddiadau a materion sydd i'w cynnwys mewn adroddiadau o'r fath *(paragraff s(h) a (i))* a darparu gwybodaeth gan y CICau i bersonau eraill *(paragraff 2(l)).* Ymhellach, mae paragraff 2(n) yn datgan y gall rheoliadau gael eu gwneud i ganiatáu i swyddogaethau eraill gael eu harfer gan CICau. Nid yw paragraff 2 yn darparu yn unswydd y gellir gwneud rheoliadau i CICau ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch materion megis "major reconfigurement". Mae'r cwestiwn wedyn yn codi a fyddai paragraff 2(n) yn caniatáu ar gyfer hyn serch hynny.

Rwyf o'r farn y byddai. Cyfeirir yn benodol at y swyddogaethau a nodir uchod, h.y. i CICau ystyried newidiadau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn eu hardaloedd yn gweithredu, i adrodd ar faterion o'r fath a hysbysu personau eraill, gan gynnwys y cyhoedd, ond credaf y gallai'r rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r CICau ofyn i'r cyhoedd am eu barn am unrhyw ystyriaeth, adroddiadau neu wybodaeth o'r fath ie ymgynghori. Byddai'r gofyniad i ymgynghori yn "additional function" o dan baragraff 2(n).

Wrth gwrs, pwerau dewisol yn unig yw'r pwerau i wneud rheoliadau ac nid oes sicrwydd y byddai'r rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol bod CICau yn ymgynghori â'r cyhoedd ar unrhyw gynigion i newid y ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yn gweithredu yn eu hardaloedd etc. Mater o bolisi fyddai cynnwys darpariaeth o'r fath, ond efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylent gael sicrwydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y bydd unrhyw reoliadau o

dan baragraff 2, os bydd newidiadau arfaethedig o bwys i'r gwasanaeth iechyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r CICau ymgynghori â'r cyhoedd.

**2. Y Byrddau Iechyd Lleol etc yn ymgynghori â'r CICau**

Os caiff newidiadau o bwys i'r gwasanaeth eu cynnig, caf ar ddeall mai'r Awdurdodau Iechyd fyddai'n gyfrifol am gynnal unrhyw ymgynghoriad ac y byddai'r CICau yn cael eu cynnwys fel ymgynghoreion. Os dyna sy'n wir gallai'r sefyllfa barhau o dan y Mesur newydd. Mae hyn oherwydd y gall rheoliadau o dan baragraff 2(f) o'r Atodlen 7A newydd ddarparu i'r Awdurdodau Iechyd, y Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG etc ymgynghori â'r CICau "with respect to such matters, and on such occasions, as may be prescribed". Unwaith eto, efallai yr hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch a yw'n bwriadu gwneud rheoliadau sy'n darparu i'r Byrddau Iechyd Lleol etc gynnal ymgynghoriad mewn perthynas ag ailgyfluniad o bwys o'r gwasanaethau iechyd.

**Peter Jones**
**Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad**
**Tachwedd 2002**